Bwrdd a Chynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru:

Datganiad cyflog rhyw 2021-2022

CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL
BWRDD CYMRU | WALES BOARD

www.bwrddchc.cymru

Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Ynglŷn â'r Bwrdd a Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau) 3

Cefndir 5

Canfyddiadau cychwynnol 6

Canran y gwrywod a benywod mewn bandiau cyflog 8

Recriwtio 10

Dadansoddiad cyflog rhwng y rhywiau llawn 11

Deall y cyfartaledd 12

Cyfraddau canolrif a chymedrig fesul awr a bylchau cyflog 13

Casgliad 14

Manylion cyswllt 15

Ynglŷn â’r Bwrdd a Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned (y Bwrdd) wedi cynhyrchu'r cynllun hwn ar ran y Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) yng Nghymru.

Mae CICau yn gyrff annibynnol sy’n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy’n byw yng Nghymru yn eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae CICau yn annog ac yn cefnogi pobl i gael llais wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau GIG.

Mae 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynnwys aelodau gwirfoddol lleol sy'n byw yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gyda chefnogaeth tîm bach o staff cyflogedig. Mae pob CIC yn:

Cynnal ymweliadau rheolaidd â gwasanaethau iechyd i glywed gan bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth (a’r bobl sy’n darparu gofal) i ddylanwadu ar y newidiadau a all wneud gwahaniaeth mawr

Ymestyn allan yn ehangach i bobl o fewn cymunedau lleol i ddarparu gwybodaeth, ac i gasglu barn a phrofiadau o wasanaethau GIG. Mae CICau yn defnyddio’r hyn a glywant i wirio sut mae gwasanaethau’n perfformio’n gyffredinol ac i wneud yn siŵr bod y GIG yn cymryd camau i wella pethau pan fo angen

Cymryd rhan gyda rheolwyr gwasanaethau iechyd pan fyddant yn meddwl am wneud newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu fel bod pobl a chymunedau'n cael dweud eu dweud o'r dechrau.

Yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i fynegi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG.

Mae Bwrdd y CICau (y Bwrdd) yn bodoli i gefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad CICau. Mae'n cynrychioli barn gyfunol CICau ledled Cymru.

Cefndir

Bydd yr adroddiad hwn yn darparu data mewn perthynas â rhyw a chyflog er mwyn helpu i nodi unrhyw feysydd y gallai fod angen mynd i'r afael â hwy.

Mae'n ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi eu datganiad cyflog rhwng y rhywiau yn flynyddol. Mae'r Bwrdd a phob un o'r 7 CIC yn gyrff statudol ar wahân. Er bod y Bwrdd a'r CICau yn gyrff statudol ar wahân, mae'r holl staff sy'n gweithio yn y Bwrdd ac yn y 7 CIC yn cael eu cyflogi gan Fwrdd Iechyd addysgu Powys.

Mae hyn yn golygu bod ei ddatganiad cyflog rhwng y rhywiau yn cwmpasu ei holl weithwyr, gan gynnwys y Bwrdd a staff CIC.

Mae Bwrdd y CICau o'r farn ei bod yn bwysig edrych ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y Bwrdd a phob un o'r 7 CIC yng Nghymru. Y llynedd, edrychwyd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chymharu hwn â'r ddwy flynedd flaenorol.

Yn yr adroddiad hwn rydym hefyd wedi cynnwys yr holl wybodaeth yn ymwneud â recriwtio, mewnol ac allanol.

Rydym wedi adrodd ar ein canfyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth am weithwyr ar **31 Mawrth 2021**. Am gysondeb, byddwn yn sicrhau bod yr un dyddiad yn cael ei ddefnyddio bob blwyddyn.

Rydym yn cydnabod, yn y datganiad cyflog hwn, fod data ar ryw wedi'i adrodd mewn ffordd ddeuaidd, gan gydnabod dynion a menywod yn unig. Mae hyn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ac a adroddwyd i ni gan ein sefydliad cynnal.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn canllawiau llywodraeth y DU ar adrodd ar ryw. Gwyddom fod yna lawer o bobl sydd ddim yn uniaethu mewn ffordd sy'n ffitio i gategori deuaidd, er enghraifft anneuaidd a rhyngrywiol.

Canfyddiadau cychwynnol

Yn gyntaf, edrychwyd ar nifer y gwrywod a benywod yn y sefydliad. Mae 83 o staff yn gweithio ar draws y Bwrdd a 7 CIC yng Nghymru. Nid yw pob un o'r rhain yn gweithio'n llawn amser. Mae llawer o'n staff yn gweithio'n rhan amser.

Mae'r CICau yn parhau i fod yn sefydliad benywaidd iawn. O'r 83 o staff, mae 6 o ddynion a 77 o fenywod. Mae hyn yn golygu bod dros 12 o fenywod ar gyfer pob aelod o staff gwrywaidd sy'n gweithio o fewn y Bwrdd neu'r CICau.

Nifer y Gwrywod yn erbyn Benywod a gyflogir gan y CICau



Yna fe edrychon ni ar y bandiau cyflog gwahanol yn y Bwrdd a'r CICau, ynghyd â nifer y dynion a'r merched sy'n gweithio yn y bandiau cyflog hynny.

	Gwryw	Benyw
Band 3	1	4
Band 4	1	18
Band 5	0	11
Band 6	1	30
Band 7	2	8
Band 8b	2	6
VSM	0	1

*Lle mae aelodau staff yn gweithio swyddi rhanedig ar fandiau cyflog gwahanol, maent wedi eu cyfrif ddwywaith yn y tabl uchod.

Mae'r tabl isod yn dangos y gymhariaeth o ddata blynyddoedd blaenorol.

2018-19			2019-20		2020-21		2021-22	
Band	G	B	G	B	G	B	G	B
3	1	4	1	5	1	5	1	4
4	0	23	1	20	2	21	1	18
5	1	10	0	9	0	10	0	11
6	3	25	4	31	3	27	1	30
7	2	12	2	7	2	8	2	8
8b	4	5	3	6	3	5	2	6
VSM	0	2	0	1	0	1	0	1
Cyfanswm SIP	11	81	11	79	11	77	7	78

** Mae'r niferoedd yn y tabl uchod yn cyfrifo i fwy o staff na'r rhai mewn swydd. Mae hyn i adlewyrchu'r rhai sy'n gweithio mewn rolau deuol.*

Canran y gwrywod a benywod mewn bandiau cyflog

Menywod yw'r ganran fwyaf o'r gweithlu o hyd, o'r 83 o staff sy'n gweithio i swyddfa'r Bwrdd a'r CICau mae 92% (77 o staff) yn fenywod a 7.1% (6 aelod o staff) yn ddynion.

Mae dynion sy'n gweithio yn y Bwrdd neu'r CICau ar lefel uwch yn bennaf (Band 6 ac uwch).

Mae'r graff isod yn dangos nifer y gwrywod a'r benywod ym mhob band cyflog, fel canran o gyfanswm nifer y staff.

Gwrywod a Benywod mewn Bandiau Cyflog Gwahanol



Mae cyfran y gwrywod a benywod ar lefel uwch Band 8b wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cyfran y menywod yn y rolau hyn yn flaenorol yn 62.5% ac mae wedi cynyddu i 75%.

Mae mwyafrif ein staff yn gweithio rhwng bandiau cyflog 4 a 6. Allan o 49 rôl sydd ar gael yn y bandiau hyn, mae dwy yn cael eu cymryd gan wrywod.

Er bod nifer uwch o fenywod mewn swyddi uwch, fel canran o gyfanswm nifer y merched, mae hyn yn llawer is, 19% yn unig. Mae dros 57% o'r gwrywod a gyflogir gan y CICau yn rhai band 7 neu uwch.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff gwrywaidd a benywaidd ym mhob band cyflog.

	Gwrywod yn y Swydd	Benywod yn y Swydd	% Gwryw	% Benyw
Band 3	1	4	16.6%	5.1%
Band 4	1	18	16.6%	23.3%
Band 5	0	11	0.0	14.2%
Band 6	1	30	16.6%	38.9%
Band 7	2	8	33.3%	10.38%
Band 8b	2	6	33.3%	7.79%
VSM	0	1	0.0	1.29%

**Mae'r tabl uchod yn cynnwys staff ar rolau deuol mewn bandiau cyflog gwahanol felly ni fydd y cyfanswm yn 100%*

Mae'r canrannau'n dangos cymhariaeth o wrywod i fenywod sy'n gweithio i'r gwahanol fandiau cyflog o fewn y sefydliad (mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gwrywod a chyfanswm y benywod).

Recriwtio

Mae menywod yn fwy tebygol o gael eu cyflogi gan y Bwrdd a'r CICau.

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, fe wnaethom recriwtio **15** aelod newydd o staff. Roedd dau (13%) o'r rhain yn ddynion.

Gwnaethom edrych ar faint o wrywod a benywod a ymgeisiodd am bob rôl a faint oedd ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Dylai'r wybodaeth hon ein helpu i ddeall rhai o'r rhesymau y tu ôl i'n cymhareb staffio gwrywaidd/benywaidd.

Wedi ymgeisio

Gwrywod ag Ymgeisiodd	Benywod ag Ymgeisiodd
111	179

Wedi cyrraedd y rhestr fer

Dynion ar y Rhestr Fer	Menywod ar y Rhestr Fer
21	55

Canran y gwrywod ar y rhestr fer yw 18.9% o gymharu â benywod ar 30.7%. Mae'n bwysig nodi bod y broses o lunio rhestr fer yn cynnwys niferoedd ymgeiswyr yn unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw ddata rhyw adnabyddadwy.

Hysbysebwyd pedair swydd uwch (band 7 neu uwch) yn allanol yn 2021-22. Ymgeisiodd nifer tebyg o wrywod a benywod i'r swyddi hyn (15 a 13, yn y drefn honno).

Dadansoddiad cyflog rhwng y rhywiau llawn

Mae'r holl staff sy'n gweithio o fewn y Bwrdd a'r CICau yn cael eu penodi i raddfeydd cyflog a osodir o fewn fframwaith cyflog y GIG o'r enw 'Agenda ar gyfer Newid'. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw anghysondeb cyflog rhwng dynion a menywod sy'n ymgymryd â'r un rolau. Gelwir hyn yn gyflog cyfartal ac nid yw'n cael sylw yn yr adroddiad hwn.

Mae adroddiadau cyflog rhwng y rhywiau yn edrych a yw dynion yn fwy tebygol o fod mewn swyddi uwch neu uwch o fewn sefydliad. Mae’r wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall, a lle bo’n bosibl, mynd i’r afael â’r materion sy’n ymwneud â chyflogau’r rhywiau.

Deall y cyfartaledd

I gyfrifo'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, byddwn yn cymryd y cyflogau fesul awr ar gyfartaledd ar gyfer dynion a menywod o fewn y Bwrdd a'r CICau. Bydd hyn yn cael ei wneud 2 ffordd (yn seiliedig ar y gofynion ar adrodd ar gyflog rhwng y rhywiau); y cymedr a'r canolrif. Mae'r dull ar gyfer y cyfrifiadau hyn yn dilyn canllawiau llywodraeth y DU:

https://www.gov.uk/guidance/gender-pay-gap-reporting-make-your-calculations

Y bwlch cyflog **cymedrig** yw'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog fesul awr dynion a menywod. Mae'r gyfradd fesul awr ar gyfer pob aelod benywaidd o staff yn cael ei chyfrifo, ei hadio at ei gilydd a'i rhannu â chyfanswm nifer y merched yn y sefydliad.

Rhennir hyn â'r canlyniad cymedrig ar gyfer dynion a'i luosi â 100 i ddangos y bwlch cyflog canrannol.

Y bwlch cyflog **canolrif** yw'r gwahaniaeth rhwng y pwyntiau canol yn ystod enillion fesul awr dynion a menywod. Mae'n cymryd yr holl gyflogau o fewn y sefydliad, yn eu didoli uchaf i'r isaf, ac yn dewis y cyflog canol mwyaf ar gyfer dynion a merched.

Mae cyflog canolrif menywod yn cael ei dynnu o gyflog canolrif dynion. Yna rhennir y gwahaniaeth rhwng y ddau â chanolrif y canlyniad ar gyfer dynion a'i luosi â 100 i ddangos y bwlch cyflog canrannol.

Cyfraddau canolrif a chymedrig fesul awr a bylchau cyflog

2020-21

Rhyw	Cyfradd Ganolrif yr Awr (£ yr awr)	Cyfradd Gymedrig Awr (£ yr awr)
Gwryw	16.08	19.13
Benyw	16.08	15.61
Gwahaniaeth	0.00	3.51
Bwlch Cyflog %	0.00%	18.37%

2021-22

Rhyw	Cyfradd Ganolrif yr Awr (£ yr awr)	Cyfradd Gymedrig Awr (£ yr awr)
Gwryw	23.44	22.77
Benyw	19.96	16.59
Gwahaniaeth	3.48 ⬆	6.18 ⬆
Bwlch Cyflog %	14.84% ⬆	27.14% ⬆

Casgliad

Mae'r CICau yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cyfle cyfartal i'r holl staff, waeth beth fo'u rhyw.

Rydym yn parhau i gyflogi nifer uwch o fenywod ar draws pob band cyflog. Rydym wedi darparu gwybodaeth am ein hymddygiad recriwtio. Byddwn yn casglu ac yn monitro data ar ddatganiadau mewnol o ddiddordeb a'r rhai nad ydynt yn mynychu'r cyfweliad.

Bydd hyn yn helpu i roi gwell dealltwriaeth inni o rai o'r rhesymau y tu ôl i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel y gallwn dargedu camau gweithredu lle bo angen.

Manylion cyswllt



Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
33/35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB

02920 235 558

enquiries@waleschc.org.uk

www.bwrddchc.cymru

@CHC_Wales

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.



Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru